Cyngor Cymuned Cerrig y Drudion
Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 4ydd o Hydref 2022

Presennol oedd Prys Ellis, John Jones, Llio Morris, Guto Jones, Ffuon Williams, Einion Edwards, Menai Hughes, Maria Roberts (cadeirydd) a cyngh Gwennol Ellis.
Datgan diddordeb - Neb
Cofnodion blaenorol – fe u harwyddwyd fel rhai cywir.
Croesawyd - Helen Goddard a Cyngh Aron Wynne atom i drafod adroddiad y llyfrgelloedd Cymunedol Sir Conwy gan gynnwys y llyfrgell yng Ngherrig y Drudion. Esboniwyd bod cyfarfod wedi bod gyda un aelod o drustee y llyfrgell, ynghyd a Helen Goddard, Cyngh Gwennol Ellis, Maria a Carol ar ran y Cyngor Bro, awgrymwyd yn glir mai peth cyntaf iw wneud oedd i gynnal Cyfarfod blynnyddol ir llyfrgell gan symud ymlaen o fanno. Penodwyd bod cynyrchiolaeth or Cyngor Cymuned yn bresennol yn y Cyfarfod maes o law. Adroddwyd hefyd gan y Cyngh Aron Wynne am y diffyg arian ar torriadau llym fydd rhaid ir Cyngor Conwy edrych i mewn iddynt gan obeithio am gymorth o Lywodraeth Cymru.

Gohebiaeth
[1] Ty Gobaith - llythyr yn gofyn am gyfraniad pasiwyd i gyfrannu £200.00.
[1.1] Archwiliad Ynni ar gyfer Adeiladau Cymunedol gan Conwy Cynhaliol - pasiwyd holi ymhellach gyda rhoi archwiliad ir Ystafell y Plwyf.
[1.2] Cyngor Sir Conwy cais cynllunio am faes parcio ychwanegol yn Nghlan y Gors neb a gwrthwynebiad.
[1.3] Ambiwlans Awyr Cymru llythyr o ddiolch am ein cyfraniad.
[1.4] Scottish Power Anfoneb £73.34 pasiwyd iw dalu.
[1.5] Haydn Roberts Anfoneb torri gwair y fynwent Newydd, fynwent yr Eglwys a Tyn Rhyd - £700.00 pasiwyd iw dalu.
[1.6] Ceir Cymru - Anfoneb o £6.00 am betrol ir peiriant tori gwair (2021) pasiwyd iw dalu.
[1.7] Snowdonia Fire and Security - Anfoneb am yr archwiliad blynnyddol £104.40.
[1.8] Dwr Cymru - Anfoneb cyflenwad dwr ystafell y Plwyf - £15.27.
[1.9] Cyngor Sir Conwy - Anfoneb am y cyllun chwarae yn ystod yr haf, £400.00 pasiwyd iw dalu.
UNRHYW FATER ARALL
[2.0] Eirian Jones, Cronfa Cymunedol y Loteri Genedlaethol - llythyr yn gofyn os fuasai rhywle ar gael yn ddi dal i gynnal cyfarfodydd yn Ngherrig y Drudion – cynigwyd y llyfrgell efallai.
[2.1] Y Domen Halen - trafodwyd bod angen archwilio y ffens o amgylch y domen ac efallai ei adnewyddu gan ei bod yn edrych yn fler hefyd y pryder am y dwr sy'n cronni gerllaw - y clerc i gysylltu ar Cyngor.
[2.2] Cyngor Sir Conwy - y clerc i gysylltu i gael arwyddion Newydd yn Nghroesffordd Cwmpennanner, ac arwydd Y Bala wrth y capel angen ei llnau neu newid hefyd. Hefyd cysyllltu i drio cael a rwyddion - 'ddim yn addas i Loriau' i ddefnyddio y ffordd lawr am Ty Mawr ir gyfeiriad y Bala. Hefyd pryder am ffordd yn rhoi/gwisgo rhwng Plas Onn a Ty Mawr ar yr allt.
Hefyd mae angen tori coed/gwrych wrth arwydd Pentrellyncymer nid oes posib gweld yr arwydd gan bod y goeden wedi tyfu allan ir ffordd.
Dywedodd Cyngh Gwennol Ellis ei bod wedi bod mewn cysylltiad a Dylan Jones or Cyngor Sir gyda cwyn sydd am yrru drwy'r pentre awgrymwyd bod y 'Go Safe' yn dod i ymweld – Cyngh Gwennol Ellis yn mynd i wneud ymoliadau. Pasiwyd hefyd i lunio deiseb i gael arwyddion 30 yn Nghlasfryn ac wrth y Sarasens i arafu y traffic.
[2.3] 2 Jones Terrace a Gwynfryn pasiwyd bod y clerc i gysylltu efo'r perchnogion y dau dy y Air B and B yma i ddatgan ein cwyn am gwn yn baeddu yn y cae chwarae Cae LLwyd a ceir yn parcio ar y palmant ar y ffordd, awgrymwyd ei bod yn cynwys iddynt beidio a gwneud y rhain ar ei rhestr croesawy.

CADEIRYDD…………………………………………………………………………………………………….